# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 9 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:05 - 11:23** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_09_10_2013&t=0&l=cy

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**David Rees (Cadeirydd)**
**Leighton Andrews**
**Rebecca Evans**
**William Graham**
**Elin Jones**
**Darren Millar**
**Lynne Neagle**
**Gwyn R Price**
**Lindsay Whittle**
**Kirsty Williams**

Tystion:

**Baroness Finlay of Llandaff**
**Veronica Snow, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys**
**Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Kevin Flynn, Cyfarwyddwr Cyflenwi a Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru**
**Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru**
**Dr Grant Robinson, Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal heb ei Drefnu**

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)**<br>**Sarah Hatherley (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Cyfnod 2 - trefn y drafodaeth
2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y drefn ystyried ar gyfer ei waith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghyfnod 2.

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:
3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 4 Gofal heb ei drefnu - sesiwn friffio ar waith y grwp cynghori gweinidogol
4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod gwaith y grŵp cynghori gweinidogol ar ofal heb ei drefnu â'r Farwnes Finlay o Landaf a Veronica Snow o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

## 5 Gofal heb ei drefnu - bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14
5.1 Atebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u swyddogion, gwestiynau'r Pwyllgor.
5.2 Cytunodd y Gweinidog i:

- ddarparu eglurhad o'r trefniadau i ddarparu brechiadau ffliw i blant drwy feddygon teulu neu'r ysgol, a'r oedrannau perthnasol pan roddir brechiadau o'r fath;
- darparu linc i'r adroddiad blynyddol ynghylch perfformiad meddygon teulu yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd perthnasol;
- darparu rhagor o wybodaeth am y polisi o gynnig triniaeth ddewisol y tu allan i GIG Cymru os nad oes gan y gwasanaeth y gallu i ddarparu oherwydd pwysau yn gysylltiedig â'r gaeaf; ac
- ystyried gwneud darn o waith i asesu'r effaith a gaiff achosion o oedi yng nghyswllt gofal dewisol ar ofal yng Nghymru heb ei drefnu.

5.3 Nododd y Dirprwy Weinidog y byddai'n darparu manylion i'r Pwyllgor ynghylch y prosiectau gofal integredig sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru.
5.4 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i:

- nodi y bydd yn dychwelyd at y pwnc hwn yn ystod gwanwyn/haf 2014 er mwyn:
    - (i) adolygu'r cynnydd yn ystod gaeaf 2013/14;
    - (ii) ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymgymryd ag ef yn fuan ynghylch *gofal heb ei drefnu a rôl gofal sylfaenol lleol*; ac
    - (iii) ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad ehangach ynghylch gofal heb ei drefnu yn sgîl pwyntiau (i) a (ii).
- gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y modd yr ystyrir sicrhau bod capasiti yn y system iechyd a gofal cymdeithasol, ac nid ysbytai yn unig, mewn cyfnodau o alw mawr dros gyfnod y gaeaf; a
- gofyn am ragor o wybodaeth am y sail resymegol a fydd yn cael ei mabwysiadu i ddosbarthu'r £150 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru
6a.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

## 7 Blaenraglen waith:

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith ar gyfer y cyfnod ar ôl y Nadolig.
7.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr yn fuan yn 2014 ynghylch caethiwed i feddyginiaethau a geir ar bresgripsiwn a dros y cownter. Bydd y pwyllgor yn trafod papur cwmpasu ar gyfer yr ymchwiliad mewn cyfarfod yn y dyfodol.
7.3 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Prif Swyddog Deintyddol i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect peilot deintyddol; ac
- archwilio cwmpas ymchwiliad posibl yn y dyfodol i fynediad at ddeintyddiaeth y GIG.